Cael ei olwg yn ôl

(wynebu siomedigaeth / ofn / llawenydd)

"Bore yfory byddaf yn chwarae i dîm cyntaf yr ysgol," meddai Iwan wrtho'i hun cyn mynd i'r gwely. Roedd wedi edrych ymlaen at hyn am fisoedd. Ym Mlwyddyn Saith, chwaraewr wrth gefn oedd o, a hefyd ym Mlwyddyn Wyth. Ond bellach, ac yntau ym Mlwyddyn Naw, roedd y cyfle wedi dod i chwarae yn y gôl i dîm yr ysgol. Aeth i'w wely'n weddol gynnar. Roedd ganddo gur yn ei ben. "Nerfau," meddai'i fam wrtho. "Mi fyddi di fel y gog yn y bore."

Rywbryd yn oriau mân y bore, deffrodd. Rhwbiodd ei lygaid. Roedden nhw'n teimlo'n chwyddedig ond yn fwy na hynny doedd o'n gweld dim. Yn ei ofn galwodd ar ei rieni. Rhuthrodd ei fam i'w ystafell wely. "Beth sy'n bod?" gofynnodd.

"Fedra i ddim gweld dim ... rydw i'n ddall," atebodd mewn panig llwyr.

"Paid â bod yn wirion," oedd ateb ei fam, "Heb ddeffro'n iawn wyt ti."

Roedd tad Iwan wedi dod i mewn i'r ystafell wely erbyn hyn.

"Edrych ar y cloc, faint ydi hi o'r gloch?" gofynnodd ei dad iddo.

"Ond fedra i ddim gweld," protestiodd Iwan. "Dydw i ddim yn gweld dim . . . dim byd."

Doedd dim amdani ond ffonio'r meddyg er ei bod yn oriau mân y bore. Gwyddai ei rieni ei bod yn anodd iawn cael gafael ar y meddyg yn ystod y dydd heb sôn am oriau'r nos. Bu tad Iwan wrthi'n ffonio o un rhif i'r llall am hydoedd. O'r diwedd dyma gael gafael ar y meddyg. Mi fydda i draw ymhen tri chwarter awr oedd ei ateb. Ac yn wir ymhen llai na hanner awr roedd y meddyg yn yr ystafell wely. "Rwy'n gwybod beth ydi'r broblem, ond gwell fyddai iddo fynd yn syth i'r ysbyty ac ymhen rhai dyddiau mi fydd ei olwg yn dod yn ôl. Mi ffonia i am ambiwlans rŵan." Ac felly y bu.

Rhoddwyd Iwan mewn ward fechan dau wely. Yn y gwely arall roedd bachgen ifanc bron yr un oed ag Iwan. Wedi torri'i goes wrth chwarae pêl-droed oedd Robin. Dechreuodd y ddau siarad o wely i wely. Pêl-droed oedd y sgwrs bob tro. Roedd Iwan yn cefnogi tîm Lerpwl a Robin yn cefnogi'r tîm arall yn Lerpwl, sef Everton.

Un pnawn dyma Iwan yn gofyn i Robin, "Sut le ydi'r ystafell yma?"

"Beth wyt ti'n feddwl" gofynnodd Robin, "sut le?"

"Wnei di ddisgrifio'r ystafell yma i mi?"

Dechreuodd Robin ddisgrifio'r ystafell. "Wel, mae yna ddau wely yma. Mae'r ystafell wedi ei pheintio'n felyn llachar, ac mae'r drysau'n wyn. Mae yna lenni glas efo blodau haul mawr melyn arnyn nhw. Mae yna deledu o liw arian yn y gornel acw a dyna ni."

"Oes yna ffenestr yma?" gofynnodd Iwan.

"Oes," oedd yr ateb. A dyna lle roedd Robin yn disgrifio'r olygfa drwy'r ffenestr. Yn ystod y dyddiau hyn bu Robin wrthi'n disgrifio'r nyrsys a'r meddygon oedd yn dod i mewn i'r ward. Un bore, deffrodd Iwan ac meddai dros y ward, "Mi ydw i'n gweld, mi ydw i'n gweld, Robin, mi ydw i'n gweld."

Clywodd y nyrs oedd ar ddyletswydd lais Iwan. Rhedodd i mewn ac ymunodd hithau yn llawenydd Iwan. Ar ôl iddo ddod ato'i hun, meddai wrth Robin, "Mi wyt ti'n un celwyddog."

"Be?" gofynnodd Robin.

"Mi wnest ti ddisgrifio'r ystafell yma i mi ond yn wir mae hi'n gwbl wahanol. Mae'r drysau'n frown, a'r paent ar y waliau yn wyn a'r llenni ... wel ... glas a blodau haul yn wir! Ddim ffasiwn beth..."

"Wel," meddai Robin, "yr unig beth roeddwn i'n wneud oedd ceisio codi dy galon a gan fy mod i wedi torri fy nghoes fe gei di ddweud wrtha i beth ydi neidio a dawnsio."

Adnod: "A dyma hwy'n dod â dyn dall ato, ac erfyn arno gyffwrdd ag ef." Marc 8:22

Gweddi: Gwna fi, O Dduw, yn ddiolchgar am fy synhwyrau. Helpa fi i gofio am y rhai hynny sy'n ddall. Amen.

Trafod:

- Oeddech chi'n credu fod Robin yn iawn yn dweud 'celwydd' wrth Iwan?
- Sut brofiad ydi bod yn ddall? Chwiliwch am wybodaeth am waith y Deillion yng Nghymru.